

Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013

Enw'r Awdurdod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Lleol:

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol o gynnydd ar gyfer y flwyddyn 2012/13 yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot a meysydd i'w gwella yn y dyfodol

Crynodeb

Ym mis Tachwedd 2012 adroddodd AGGCC ar ei arolygiad o wasanaethau i blant. Nododd hyn ystod o ffactorau a oedd yn peri risg sylweddol i les a diogelwch plant. O ganlyniad, rhoddwyd y cyngor o dan y protocol pryderon difrifol gan Lywodraeth Cymru ac mae gwasanaethau i blant yn destun monitro agos gan AGGCC ar hyn o bryd.

Mae nifer o newidiadau wedi bod yn arweinyddiaeth y gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys ymddeoliad y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai a phenodi cyfarwyddwr dros dro. Mae pennaeth newydd ar gyfer y gwasanaethau i blant a thîm o brif swyddogion wedi'u penodi. Ni fu newid yn yr uwch dîm rheoli o fewn gofal cymunedol a thai.

Mae'r gwasanaethau i blant wedi gwneud cynnydd cyson, gyda chydweithio cynyddol gydag iechyd ac ar draws rhaglen gydweithredol Bae'r Gorllewin.

Yn ystod 2012/13 parhaodd y gwasanaethau i blant i fod yn faes o bryder sylweddol. Mae'r cyngor yn cymryd camau i sicrhau gwelliant er bod y gwasanaethau i blant yn parhau yn fregus.

Oedolion

Mae'r cyngor wedi darparu tystiolaeth o gynnydd parhaus o fewn y gwasanaethau i oedolion gyda gwelliannau mewn perfformiad ar draws ystod o ddangosyddion perfformiad allweddol. Am yr ail flwyddyn cafwyd gostyngiad yn lefel yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau'n ymwneud â gofal cymdeithasol. Mae cynnydd wedi'i wneud wrth symud tuag at integreiddio cynyddol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a chydweithio gyda Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym meysydd diogelu, anableddau dysgu, iechyd meddwl oedolion a gwasanaethau

i bobl hŷn o fewn rhaglen gydweithredol Bae'r Gorllewin. Mae'r cyngor wedi nodi bod angen gwneud gwelliannau sylweddol o fewn y gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu.

Plant

Mae perfformiad o fewn llawer o feysydd y gwasanaethau i blant, gan gynnwys ymateb i atgyfeiriadau, galw cynadleddau achos amddiffyn plant a chefnogi plant sy'n derbyn gofal yn parhau yn wan o'u cymharu â chynghorau eraill. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn uchel a bu perfformiad yn wan wrth gynllunio ar gyfer eu hanghenion a'u dyfodol, a darparu cymorth gwaith cymdeithasol. Mae'r cyngor yn wynebu galw uchel ac nid oedd ganddo'r systemau na'r staff i reoli'r atgyfeiriadau a oedd yn dod i mewn. Canlyniad hyn yw pwysau cynyddol ar draws y system gofal plant, yn benodol wrth gefnogi plant sydd wedyn yn dod yn blant sy'n derbyn gofal. Er bod cynnydd wedi'i nodi yn ddiweddar, mae cyflymdra araf y gwelliant yn arwain at gostau uwch o'i gymharu â gwariant ar wasanaethau i blant o fewn cynghorau tebyg.

Er bod ymdrech a buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud i sicrhau gwelliant tymor byr, mae AGGCC yn pryderu a yw'r ymdriniaeth sy'n cael ei defnyddio a'r adnoddau sy'n cael eu darparu yn ddigonol i sicrhau gwelliant cynaliadwy yn y tymor hwy.

Daeth y cyfarwyddwr i'w swydd ddiwedd mis Ebrill 2013 ar sail dros dro, ac mae ei adroddiad yn amlinellu'n glir yr heriau y mae'r cyngor yn eu hwynebu a'r gwaith sydd ei angen i gyflawni a chynnal gwelliannau.

Mae AGGCC wedi nodi'r risgiau posibl canlynol:

- Mae gwasanaethau i blant yn wynebu heriau parhaus a difrifol, yn enwedig o ran cadernid y grŵp staff, effaith y newidiadau mewn rheolaeth a maint y galw ar wasanaethau.
- Yr effaith bosibl ar y gwasanaethau i oedolion drwy ganolbwyntio adnoddau a sylw ar wella'r gwasanaethau i blant.
- Defnyddio trefniadau dros dro i gyflawni sefydlogrwydd hirdymor a gwelliant parhaus.
- Gwendid partneriaethau â rhanddeiliaid allweddol o fewn y gwasanaethau i blant.
- Pwysau cyllideb yn y tymor canolig a'r tymor hwy yn arwain at ostyngiad yn yr adnoddau sydd ar gael i gynnal gwelliant.

Ymateb i feysydd datblygu'r llynedd

Fe ymsefydlodd y cyngor feysydd datblygu AGGCC ar gyfer gwasanaethau i oedolion o fewn ei amcanion gwella ei hun, ac mae wedi gwneud cynnydd da yn eu herbyn.

O fewn y gwasanaethau i blant, mae'r meysydd i'w gwella ac argymhellion yr arolygiad ac ymweliadau monitro parhaus wedi'u cynnwys yn y cynllun gwella cyffredinol. Serch hynny, mae cynnydd yn 2012/13 wedi bod yn araf.

Arfer da a nodwyd

Mae'r AGGCC wedi nodi'r meysydd canlynol o arfer da:

- Y prosiect COASTAL a'r cyfleoedd gwaith diwrnod i bobl ag anableddau dysgu.

Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn

Cynhaliodd AGGCC nifer o ymweliadau safle â gwasanaethau i oedolion eleni. Roedd y rhain yn cynnwys y prosiect COASTAL, cyfleoedd dydd anabledd dysgu, y gwasanaeth gofal cartref, y gwasanaeth therapi galwedigaethol, technoleg gynorthwyl, cynllun gofal ychwanegol, y tîm pobl hŷn a chyfarfodydd gyda'r timau contractio a chomisiynu, diogelu a gofalwyr.

Roedd yr ymweliadau hyn yn ychwanegol at raglen flynyddol arolygiadau o leoliadau gofal rheoledig y cyngor, ac o wasanaethau annibynnol i oedolion a phlant yn ardal Castell-nedd Port Talbot.

O fewn y gwasanaethau i blant, cynhaliwyd arolygiad ym mis Medi 2012 er mwyn dilyn arolygiad y flwyddyn flaenorol. Mae ymweliadau monitro pellach wedi'u cynnal yn unol â chychwyn y protocol pryderon difrifol. Ym mis Ionawr cafwyd adolygiad o'r trefniadau rianta corfforaethol a gweithio mewn partneriaeth, ac wedyn cafwyd ymweliad ym mis Mawrth a oedd yn adolygu'r gwasanaeth derbyn. Canolbwyntiodd ymweliad monitro mwy diweddar ym mis Mehefin 2013 ar drefniadau diogelu.

Meysydd i AGGCC wneud gwaith dilynol ynddynt y flwyddyn nesaf

O dan y protocol pryderon difrifol, bydd y gwasanaethau i blant yn parhau i gael eu monitro yn chwarterol. Mae ail-arolygiad llawn wedi'i gynllunio ar gyfer mis Tachwedd 2013. Cafodd nifer uchel o feysydd i'w gwella eu hamlinellu yn yr adroddiad arolygu ym mis Medi 2012, ac mae'r cyngor wedi cynnwys y rhain yn ei gynlluniau gwella. Felly, nid yw'r adroddiad gwerthuso hwn yn cyfeirio at yr holl feysydd i'w gwella o fewn y gwasanaethau i blant y mae'r cyngor yn rhoi sylw iddynt, ond bydd y meysydd i wneud gwaith dilynol ynddynt yn cynnwys:

- Prydlondeb ymateb o ansawdd i atgyfeiriadau i'r gwasanaethau i blant.
- Ansawdd y cynllunio a chefnogaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.
- Cadernid a chymhwysedd staff a rheolwyr o fewn y gwasanaethau i blant.

Nodir nifer o feysydd penodol i'w gwella ym mhrif ran yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd o ran y rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor mewn cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y flwyddyn i ddod:

- Datblygu safonau ansawdd a phrosesau asesu risg o fewn contractio a chomisiynu.

- Cynnydd moderneiddio o fewn y gwasanaethau anabledd dysgu a datblygiad gofal, cymorth a modelau llety i'r dyfodol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.
- Gallu diogelu a gweithio mewn partneriaeth.
- Effaith y gwaith sydd wedi'i wneud er mwyn gostwng absenoldeb salwch o fewn y gwasanaethau i oedolion ac i blant.

Yn ychwanegol, bydd AGGCC yn cynnal arolygiad thematig cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal a bydd yn cynnal adolygiad thematig cenedlaethol o gomisiynu gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn.

PERFFORMIAD

Llunio gwasanaethau:

Oedolion

Mae'r cyngor wedi parhau â'r gweddnewid a oedd wedi'i drefnu o wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion. Mae hyn, ynghyd â Phartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin, a'r rhaglen ar gyfer gwasanaethau cymunedol integredig, yn cyflawni ymrwymiad y cyngor i wella gwasanaethau gofal cymunedol.

Nododd arolygiad o wasanaethau anabledd dysgu'r cyngor fod angen moderneiddio. Ymatebodd y cyngor yn gadarnhaol iawn i'r arolygiad, gan nodi prosesau clir ar gyfer cyflawni newid a chanlyniadau disgwylidig. Mae wedi neilltuo cyfnod sylweddol o amser uwch swyddogion i'w weithredu. Mae gan y cyngor dystiolaeth o ormod o ddarpariaeth ar gyfer rhai defnyddwyr, ymdriniaeth osgoi risg gan y sector, diffyg cynnydd yn y broses adolygu gan reolwyr gofal a diffyg darpariaeth briodol yn y farchnad. Trwy ddatblygu gwell dealltwriaeth o anghenion a modelau llety, gobeithir y bydd y broses ailasesu yn arwain at gomisiynu pecynnau gofal a chymorth mwy priodol. Serch hynny, bydd angen i'r cyngor sicrhau bod ystod ddigonol o wasanaethau wedi'u sefydlu i bobl gael mynediad atynt a symud ymlaen atynt.

Bydd strategaeth gomisiynu gyffredin ar gyfer y gwasanaethau i bobl hŷn yn cael ei gweithredu ochr yn ochr â'r strategaeth anabledd dysgu. Er bod peth monitro perfformiad ar y sector cartrefi gofal i bobl hŷn wedi'i sefydlu, mae angen datblygu safonau ansawdd a sefydlu offeryn rheoli risg. Bydd gwaith datblygu gyda phartneriaid o fewn rhaglen gydweithredol Bae'r Gorllewin yn cefnogi hyn. Nodwyd bod ymrwymiad darparwyr gwasanaeth, y rheoleiddiwr a'r bwrdd iechyd yn rhan annatod o'r ymdriniaeth hon. Ceir gallu digonol o fewn y tîm i ymgymryd â monitro effeithiol ond rhaid i'r cymorth busnes a gweinyddol cysylltiedig gael ei gynnal a'i feithrin er mwyn cefnogi datblygiadau arfaethedig. Cadarnhaodd arolygwyr bod cyswllt a phartneriaethau da gyda gwasanaethau a gomisiynir wedi'u sefydlu.

Ar hyn o bryd mae'r holl ddefnyddwyr sy'n gymwys ar gyfer ariannu gofal iechyd parhaus yn cael eu lleoli gan ddefnyddio system contractio'r cyngor ei hun. Yna ailgodir tâl ar y bwrdd iechyd. Dylai'r cyngor sicrhau bod yr arfer hwn yn amodol ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol a chytundeb i egluro llywodraethu ac atebolrwydd parhaus.

Mae'r angen i ddatblygu ystod well o wasanaethau cymunedol o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y gwelyau ysbyty wedi'i nodi, yn enwedig ar gyfer pobl â dementia. Mae ffrwd waith yn edrych ar ddatblygu un pwynt mynediad a gwasanaethau integredig gydag iechyd. Mae'r cyngor wedi nodi bod angen iddo symud oddi wrth fodelau gofal mwy traddodiadol a gweithio'n fwy cyson gyda'i bartneriaid iechyd, a datblygu cysylltiadau gwell gyda chymunedau er mwyn sefydlu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo annibyniaeth. Bydd y maes datblygu hwn yn cael ei dargedu gan raglen y cyngor i weddnewid gofal cymdeithasol i oedolion.

Plant

Nid yw'r rhaglen gweddnewid a moderneiddio a oedd wedi bod yn flaenoriaeth ar gyfer y cyngor wedi cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol hyd yma. Nodwyd bod y "model systemau" o ddarparu gwasanaethau, a gyflwynwyd yn 2011, wedi arwain at arfer anghyson ac anniogel. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, mae'r gwasanaeth wedi'i ailstrwythuro ac adnoddau ychwanegol wedi'u sicrhau. Mae cynnydd yn erbyn y cynllun gwella yn cael ei fonitro gan AGGCC ar ôl penderfyniad y Prif Arolygydd i gychwyn y protocol pryderon difrifol yn ffurfiol ym mis Hydref 2012. Mae ymdrechion y cyngor wedi canolbwyntio ar ddatrys y problemau tymor byr a thymor canolig a oedd ag angen sylw brys i gadw'r gwasanaeth yn hyfyw. Nid yw'n ymddangos bod strategaeth hirdymor wedi'i sefydlu.

Meysydd o gynnydd

- Cydnabyddiaeth bod angen moderneiddio gwasanaethau anabledd dysgu.
- Monitro perfformiad gwasanaethau a gomisiynir.

Meysydd i'w gwella

- Ystyried sut y gall y tîm monitro contract a'r cymorth busnes a gweinyddol cysylltiedig gael eu datblygu i wella prosesau monitro ansawdd ac asesu risg.
- Datblygu gofal, cymorth a modelau llety i'r dyfodol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.
- Datblygu gwasanaethau gofal dementia arbenigol.
- Asesu atebolrwydd parhaus a phroses lywodraethu'r cyngor yn ei drefniadau contractio cyfredol gydag iechyd.
- Cynllunio strategol hirdymor o fewn y gwasanaethau i blant.

Cael gafael ar gymorth:

Oedolion

Mae adolygiad a datblygiad ar gyfer y gwasanaethau gofal canolraddol wedi golygu y bydd pobl yn gallu cael mynediad at ofal cymdeithasol trwy un pwynt mynediad o'r enw "gwasanaeth porth". Mae'r tîm cyswllt a mynediad cyfredol yn parhau i ddarparu cyngor a chyfeirio pobl. Mae'n darparu dulliau hidlo, sy'n sicrhau mai dim ond atgyfeiriadau priodol sy'n cyrraedd y timau. Er y gall y galw am wasanaeth fod yn uchel, ymatebir i'r holl alwadau ar yr un diwrnod. Bydd y "gwasanaeth porth" newydd yn gosod safonau perfformiad clir ar gyfer ymateb, a bydd mynediad trwy atgyfeiriadau ar-lein ac e-bost yn cael ei hyrwyddo.

Yn 2012/13 mae prosesau diwygiedig ar gyfer teleofal wedi golygu bod pobl yn gallu cael mynediad at gefnogaeth teleofal sylfaenol heb gael asesiad llawn. Bwriada'r cyngor adeiladu ar y gwasanaeth hwn gan gynnwys broceriaeth trydydd sector hefyd o fewn y "gwasanaeth porth".

Mae gwaith y cyngor gydag iechyd wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal ac, er y gallai wella eto, mae cynnydd wedi'i gynnal am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae staff y cyngor ac iechyd yn cwrdd yn wythnosol i drafod cleifion sy'n barod i gael eu rhyddhau. Ceir gwell cydweithio, gwell cynllunio a thrafod yn ymwneud â siwrnai'r claf.

Cadarnhaodd arolygwyr fod anghenion gofal a chymorth yn cael eu hadolygu yn ôl yr angen o fewn y gwasanaethau i bobl hŷn. Mae adolygu parhaus a rheolaidd ar anghenion pobl o fewn gwasanaethau anabledd dysgu yn llai cyson ac mae'r cyngor yn adrodd ar ostyngiad mewn perfformiad yn y maes hwn. Mae'n rhaid i'r cyngor ystyried pa un yw'r ffordd orau o sefydlu system adolygu a all fonitro anghenion newidiol pobl ac ymateb yn unol â hynny.

Mae partneriaethau wedi'u sefydlu gyda'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i bobl ag angen gofal a chymorth. Mae gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl a phobl hŷn wedi'i sefydlu'n dda. Mae'r asiantaethau dan sylw yn cynnig cyfle i rwydweithio a chyfeirio pobl ar draws yr ystod lawn o wasanaethau. Mae gwasanaeth gwell ar gyfer cymorth eiriolaeth annibynnol i'r rheini sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty neu sy'n ystyried gofal preswyl wedi bod yn ddatblygiad pwysig.

Plant

O ganlyniad i ddiwygio'r trefniadau ar gyfer rheoli atgyfeiriadau ac asesiadau cychwynnol fel yr adroddwyd amdano yn arolygiad Medi 2011, cafodd timau cymunedol eu gorlethu gan waith. Arweiniodd at ddirywiad ym mhrydlondeb asesiadau cychwynnol a chynnydd mewn ail-atgyfeiriadau. Crëwyd un pwynt cyswllt ym mis Awst 2012 er mwyn sgrinio'r holl atgyfeiriadau a gwella amseroldeb wrth wneud penderfyniadau. Mae'r data perfformiad ar gyfer cwblhau asesiadau cychwynnol a chraidd yn wan o'i gymharu â chynghorau eraill. Dim ond hanner yr asesiadau sy'n cael eu neilltuo i weithwyr cymdeithasol a bu cynnydd yn yr ail-atgyfeiriadau, sy'n uchel o'u gymharu â

chyngorau tebyg. Bu oedi wrth sefydlu un tîm asesu. Ni fu amser i gael tystiolaeth o unrhyw welliant cyson o'r camau a gymerwyd ar adeg arolygiad Medi 2012. Serch hynny, yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, nodwyd gwelliannau mewn prydlondeb.

Meysydd o gynnydd

- Cynnydd ar integreiddio gydag iechyd.
- Datblygu gwasanaethau eiriolaeth.

Meysydd i'w gwella

- Mae'n rhaid i'r cyngor ystyried y ffordd orau o sefydlu system adolygu o fewn y gwasanaethau anabledd dysgu a all fonitro anghenion newidiol pobl ac ymateb yn unol â hynny.
- Cynnydd pellach ar y gostyngiad yng nghyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal.
- Sicrhau bod gwelliant cyson yn yr ymateb i atgyfeiriadau yn y gwasanaethau i blant a hynny o ran dibynadwyedd, prydlondeb ac ansawdd y dadansoddiad a phenderfyniadau.
- Sefydlu un tîm asesu.

Y gwasanaethau a ddarparwyd:

Oedolion

Cynhaliodd y cyngor a'r bwrdd iechyd adolygiad o wasanaethau gofal canolradd. Canfu hyn, er bod y gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y rheini sy'n ei ddefnyddio, fod taith y bobl trwy'r gwasanaethau'n gallu bod yn gymhleth. Mae model newydd wedi'i arbrofi a phenderfynwyd symud at weithrediad llawn. Mae gan y model integredig un pwynt mynediad amlddisgyblaeth a phroses symlach ar gyfer asesu cychwynnol. Mae hyn yn sicrhau bod pobl naill ai'n gallu cael cyngor, gwybodaeth, gofal canolraddol, ymyrraeth feddygol neu gefnogaeth fwy hirdymor.

Mae'r gwasanaeth therapi galwedigaethol yn rhan o ystod o wasanaethau a gyflwynir ar y cyd a fydd yn ffurfio strwythur integredig newydd yn y dyfodol agos iawn. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn profi nifer o heriau sy'n cynnwys gallu'r gwasanaeth i fodloni galw, llwythi achos uchel ac absenoldeb hirdymor y rheolwr tîm. Bwriad sefydlu'r strwythur integredig newydd yw ymdrin â'r materion hyn. Mae enghreifftiau o arfer da yn amlwg gyda'r gwasanaeth yn nodi bod angen darparu asesiad gofal a chefnogaeth fel cyfanrwydd, nid yn unig ar gyfer yr unigolyn, ond hefyd teulu a gofalwyr yr unigolyn. Cafwyd tystiolaeth gadarnhaol o ymatebolrwydd y gwasanaeth, mynediad at gyfarpar, y potensial i gynnal pobl yn eu cartrefi eu hunain a'r gefnogaeth i ofalwyr.

Tra bod y gwasanaeth technoleg gynorthwyol presennol yn cynnig cefnogaeth i bobl hyn yn bennaf, mae'r cyngor wedi nodi ei werth wrth gefnogi pobl ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl. Bydd hwn yn faes datblygu i'r gwasanaeth hwn ac yn cyd-fynd â'r gwaith y mae'r cyngor yn ei wneud mewn

ymateb i'r adolygiad o'i wasanaethau anabledd dysgu a gynhaliwyd gan Adolygiad Alder. Dylai buddion technoleg gynorthwyol gael eu hyrwyddo ar draws ieuchyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn manteisio i'r eithaf ar ei botensial i gefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain a gostwng costau.

Dylai'r datblygiadau o fewn gofal cartref, gan gynnwys cyflwyno system monitro galwadau electronig ynghyd â chontractau safonedig ar gyfer gweithwyr, sicrhau bod pobl yn parhau i dderbyn gwasanaeth cyson ac effeithiol. Bydd goblygiadau i lwyth gwaith staff rheoli a gweinyddu yn sgil cyflwyno hyn, a bydd yn rhaid i'r cyngor fonitro'i effaith.

Mae cyfleoedd a lleoliadau gwaith mewnol ac yn y gymuned i bobl ag anableddau dysgu a phroblemau ieuchyd meddwl wedi'u datblygu'n dda ac wedi golygu canlyniadau da i bobl. Mae sefydlu modelau cynaliadwy i barhau i gefnogi pobl a chanfod cyfleoedd cyflogaeth bellach yn derbyn blaenoriaeth uchel. Efallai yr hoffai'r cyngor ystyried sut y gallai ei feysydd gwasanaeth ehangach gael eu defnyddio i gynnig cyfleoedd gwaith a lleoli ar gyfer pobl.

Mae fframwaith sicrwydd ansawdd drafft ar gyfer gwaith cymdeithasol o fewn gwasanaethau i oedolion wedi'i ddatblygu. Mae system archwilio ffeiliau achos yn cael ei defnyddio yn rhan o'r goruchwyllo i gefnogi'r gwaith hwn. Hefyd, mae arolygon yn cael eu cynnal i ddeall profiad y broses asesu a rheoli gofal. Mae hyn, ynghyd â rhaglen o ymarferion "yr hyn sy'n bwysig" ansoddol, wedi arwain at well dealltwriaeth o'r ffordd orau i lunio arfer a darpariaeth gwasanaethau mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Plant

Mae gwaith partneriaeth o fewn y cyngor wedi'i ddatblygu ar draws nifer o fentrau. Mae un o'r rhain â'r nod o ostwng yr angen am ymyrraeth statudol trwy ddarparu gwasanaethau cymunedol effeithiol. Mae gwasanaeth rhanbarthol cymorth dwys i deuluoedd yn cael ei ddatblygu i helpu teuluoedd ag angen lefel uchel o gefnogaeth. Canfu ymweliad monitro ym mis Ionawr 2013 "ddatgysylltiad" o ran cydgysylltu cynllunio adnoddau. Cynhaliodd y cyngor adolygiad o wasanaethau ataliol o ganlyniad i hynny, a bydd y rhain yn cael eu trefnu i gyd-fynd yn well â'r angen.

Datblygwyd fframwaith sicrwydd ansawdd a'i gytuno gan aelodau yn 2011. Cafwyd diffyg gallu i weithredu'r fframwaith ar draws y gwasanaeth, gyda rheolwyr tîm yn cynnal darnau o waith sicrwydd ansawdd ar eu pennau eu hunain. Ceir diffyg gallu o hyd i fonitro'r fframwaith rheoli perfformiad. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu.

Fe wnaeth y system TG, a oedd wedi'i datgysylltu'n flaenorol mewn ymateb i gyflwyno'r model systemau, rwystro adrodd ar ddangosyddion perfformiad. Mae hyn bellach wedi'i adolygu a'i fireinio.

Meysydd o gynnydd

- Cyfleoedd gwaith i bobl ag anabledd dysgu neu broblem ieuchyd meddwl.

- Datblygiadau o fewn technoleg gynorthwyol.

Meysydd i'w gwella

- Adolygu gallu'r gwasanaeth therapi galwedigaethol i fodloni'r galw, o ran llwythi achos uchel a chefnogaeth reoli.
- Codi ymwybyddiaeth o fuddion technoleg gynorthwyol ar draws y gwasanaethau i oedolion ac ieuchyd.
- Diwygiad parhaus ar yr offeryn archwilio ffeiliau i sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'w ddiben ar draws pob maes gwasanaeth.
- Casglu gwybodaeth sicrwydd ansawdd yn systematig o fewn y gwasanaethau i oedolion gan gynnwys canlyniadau yn dilyn ymyrraeth.
- Sicrhau bod gwasanaethau cefnogi ac atal i blant a theuluoedd yn cael eu cydgysylltu.
- Datblygu sicrwydd ansawdd ac adrodd ar berfformiad dibynadwy o fewn y gwasanaethau i blant.

Yr effaith ar fywydau pobl:

Oedolion

Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud o ran rheoli risgiau a throthwy o fewn diogelu a'r broses codi pryderon. Nododd adolygiad achos a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2013 anghenion hyfforddi pellach o fewn hyfforddiant ymchwiliadau nad ydynt yn rhai troseddol. Bydd y bwrdd diogelu oedolion rhanbarthol newydd yn allweddol wrth ddatblygu ymhellach gallu strategol o fewn diogelu oedolion. Yn ôl profiad AGGCC mae pobl yn cael eu hamddiffyn drwy ymateb diogelu effeithiol ac mae unigolion yn derbyn cefnogaeth dda. Cydnabyddir bod angen i'r canlyniadau i bobl o fewn y broses ddiogelu fod yn gliriach, gyda mwy o ymgynghori gyda'r rheini dan sylw ynglŷn â'u dymuniadau a'r canlyniadau y maent yn eu dymuno.

Teimlir bod cydweithio o fewn diogelu yn dda, er bod angen i swyddogaethau a chyfrifoldebau asiantaethau o fewn proses diogelu a chodi pryderon gael eu hegluro er mwyn gwella dealltwriaeth ac ymatebolrwydd. Mae'r cyngor wedi datblygu dulliau i sgrinio atgyfeiriadau ac asesu eu risg, ac wedi dwyn ynghyd y swyddogaethau diogelu a threfniadau diogelu rhag colli rhyddid. Fe allai hyn effeithio ar allu'r tîm diogelu a bydd angen i'r cyngor fonitro hyn yn ofalus.

Comisiynodd y cyngor wasanaeth gofalwyr Castell-nedd Port Talbot i ymestyn allan at bobl nad ydynt fel arall yn defnyddio gwasanaethau. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus wrth frwydro yn erbyn unigedd cymdeithasol a darparu seibiant, a bellach maent yn symud at ddarparu gwasanaeth prif ffrwd. Erbyn hyn, mae angen rhaglen dreigl o hyfforddiant staff yn ymwneud ag asesiadau gofalwyr, ansawdd a chynnwys. Hefyd, mae angen sefydlu ymwybyddiaeth o ofalwyr a'r angen i gynnig a darparu asesiadau o ansawdd i ofalwyr pan fo gweithwyr cymdeithasol yn dod i gysylltiad â defnyddwyr. Mae nifer yr asesiadau gofalwyr wedi bod yn isel ers rhai blynyddoedd o'i gymharu â chynghorau tebyg. Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r mater hwn eleni ac mae'r nifer wedi cynyddu. Ymgynghorwyd gyda gofalwyr, a'r

canlyniad yw bod gwell hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth gyda staff rheoli gofal wedi'i nodi.

Mae taliadau uniongyrchol yn parhau i gael eu hyrwyddo gan y cyngor. Mae'r pwyslais eleni wedi bod ar ddefnyddio taliadau uniongyrchol yn y gwasanaeth iechyd meddwl a'r timau anabledd dysgu.

Plant

Parhaodd niferoedd y plant sy'n derbyn gofal a phlant y mae eu henwau ar y gofrestr amddiffyn plant i godi y llynedd. Mae gan y cyngor gyfradd uchel o blant sy'n derbyn gofal o'i gymharu â chynghorau tebyg. Ymddengys bod cynllunio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn wan gan mai cyfran isel ohonynt sydd â chynllun wedi'i sefydlu ar gyfer lleoli neu gynllun ar gyfer parhad yn eu hail adolygiad. Cafwyd gostyngiad mawr yn y niferoedd sydd â chynllun parhad. Serch hynny, ymddengys bod sefydlogrwydd lleoliad yn gymharol â chynghorau tebyg eraill. Mae neilltuo gweithwyr cymdeithasol i blant sy'n derbyn gofal yn isel o'i gymharu â chynghorau eraill. Nid oes digon o ymweliadau statudol yn cael eu cynnal ac mae'r gostyngiad sylweddol a welwyd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal sydd â chynlluniau llwybr ar gyfer eu dyfodol yn achosi pryder. Dim ond ar gyfer un o bob pump y mae cynlluniau wedi'u sefydlu. Dim ond tri chwarter y plant sy'n gadael gofal sy'n parhau mewn cysylltiad â'r cyngor, cyfran is na'r rhan fwyaf o gynghorau.

Mae perfformiad wrth alw cynadleddau achos amddiffyn plant ac adolygiadau grŵp craidd yn wan o'i gymharu â chynghorau eraill. Mae'r nifer uchel o achosion cyfreithiol wedi cynyddu'r pwysau ar weithwyr cymdeithasol, cadeiryddion cynhadledd achos, a'r tîm adolygu a chynhadledd annibynnol. Gwelodd arolygwyr enghreifftiau o gofnodi camau amddiffyn plant yn cael eu haddasu i gyd-fynd â'r model systemau. Yn sgil hyn, cafodd cofnodi trafodaethau strategaeth a chanlyniad unrhyw ymchwiliadau Adran 47 eu colli ym mhrif ran y cofnodi.

Yn ystod y chwarter olaf cafwyd gwelliant yn y ffigurau ar gyfer rheoli atgyfeiriadau. Yn amlwg mae'n rhaid i'r duedd hon barhau a chael ei chynnal.

Meysydd o gynnydd

- Rheoli risg a throthwyon o fewn diogelu.
- Hyrwyddo taliadau uniongyrchol.

Meysydd i'w gwella

- Mae angen i'r cyngor ystyried a oes gan y tîm diogelu allu digonol i fodloni'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol gyda'r cyfrifoldebau ychwanegol o ran Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.
- Gwaith gyda phartneriaid i egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau wrth gydweithio gyda diogelu.
- Hyfforddiant staff yn ymwneud â darparu asesiadau gofalwyr.
- Cynllunio a chymorth gwaith cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

- Amseroldeb ac ansawdd cymhwyso gweithdrefnau amddiffyn plant.
- Cynllunio a chefnogi plant sy'n derbyn gofal.

GALLU

Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol:

Oedolion

Mae barn pobl yn ymwneud ag ansawdd a datblygiad parhaus gwasanaethau wedi'u sefydlu trwy ddigwyddiadau ymgynghori gyda grwpiau defnyddwyr, gwasanaethau eiriolaeth a gofalwyr.

Nid yw prosesau sicrwydd ansawdd ar draws gwasanaethau i oedolion yn cael eu cymhwyso'n gyson a byddai datblygu systemau TG cyffredinol i gasglu ac adrodd ar y gwaith ansawdd sy'n cael ei wneud yn fuddiol. Mae'r cyngor yn parhau i ymsefydlu ymhellach ddulliau sicrwydd ansawdd gyda'i gilydd gan ddefnyddio archwiliadau ffeil achos.

Mae rhwydweithiau cymuned ymarfer y cyngor ar draws pob maes gofal cymunedol ar gyfer staff gwaith cymdeithasol ar bob lefel yn parhau i ddangos buddion dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ar y cyd ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae'r cyngor wedi tynnu sylw at reolaeth salwch ar draws pob maes gwasanaeth fel pryder parhaus. Er bod polisi cynyddu presenoldeb newydd wedi'i gyflwyno, ni chafodd ei gynnal. Mae'r cyngor wedi nodi hyn fel maes y bydd angen craffu cadarn arno gan reolwyr eto yn ystod y flwyddyn hon.

Mae cynnydd da wedi'i wneud i integreiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol. Mae strwythurau rheoli bellach wedi'u hintegreiddio'n llawn; mae'r pennaeth gofal cymunedol a thai wedi'i ddirprwyo i'r bwrdd iechyd ac yn aelod llawn o'r tîm rheoli ardal. Hi sy'n gyfrifol am wasanaethau integredig cymunedol. Cafwyd ymgynghori ar strwythur rheoli, a chafodd ei gymeradwyo a'i weithredu islaw'r pennaeth gwasanaeth gyda rheolwyr gwasanaethau integredig cymunedol ar gyfer timau rhwydwaith cymunedol ac adnoddau cymunedol.

Mae gwaith i integreiddio TG, safonau perfformiad, prosesau asesu a darpariaeth gwasanaeth wedi gwneud cynnydd da.

Plant

Roedd y gweithlu mewn sefyllfa fregus ar adeg arolygiad AGGCC. Mae'r cyngor wedi profi peth llwyddiant wrth recriwtio staff profiadol trwy greu swyddi gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol a gwella telerau ac amodau. Dangosodd proffil y grŵp staff nifer uchel o staff newydd yn eu swyddi, gan gynnwys nifer mawr o weithwyr cymdeithasol ag ychydig iawn o brofiad o ymarfer. Mae'r defnydd uchel o weithwyr cymdeithasol asiantaeth yn dal yn amlwg.

Mae'r gweithlu yn parhau i fod mewn sefyllfa fregus. Cafwyd peth llwyddiant eleni wrth recriwtio a dyma un o brif flaenoriaethau cynllun gwella'r cyngor. Mae diffyg profiad yn parhau o fewn y gweithlu ar lefel rheoli ac ymarferwyr ac mae hyn yn parhau yn her. Parodd dibyniaeth fawr ar nifer uchel o weithwyr cymdeithasol asiantaeth er, yn fwy diweddar, mae swyddi'r prif swyddogion wedi'u llenwi. Mae diffyg uwch reolwyr wedi cyfyngu ar allu'r cyngor i sbarduno gwelliant.

Meysydd o gynnydd

- Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol.

Meysydd i'w gwella

- Mae'n rhaid i'r cyngor ystyried cefnogi'r prosesau sicrwydd ansawdd cyfredol gyda chefnogaeth TG effeithiol.
- Mae angen gwaith parhaus o hyd er mwyn gostwng effaith absenoldeb salwch ar gyflwyno gwasanaethau.
- Sefydlogi'r gweithlu o fewn y gwasanaethau i blant a sicrhau bod staff yn gymwys ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

Darparu cyfeiriad:

Mae pennaeth newydd ar gyfer y gwasanaethau i blant a thîm prif swyddogion wedi'u penodi. Mae'r uwch dîm reoli o fewn gofal cymunedol a thai wedi parhau'n sefydlog. Mae'r sefydlogrwydd o fewn gofal oedolion wedi galluogi cynnydd ar ei agenda gweddnewid trwy Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin, y rhaglen gwasanaethau cymunedol integredig a rhaglen gweddnewid gofal cymdeithasol i oedolion y cyngor ei hun.

Mae pennaeth gwasanaethau i blant newydd, profiadol wedi dechrau yn ei swydd ym mis Medi 2012 ac mae hyn yn galluogi'r cyngor i wneud cynnydd wrth weithredu'r cynllun gwella. Serch hynny, mae'n rhaid cael cyfnod o sefydlogrwydd er mwyn cynnal gwelliannau ac adeiladu arnynt.

Mae adroddiad gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2012/13 yn dod i'r casgliad bod y cyngor yn sicrhau gwelliant mewn sawl maes, ond ei fod yn wynebu heriau penodol yn y gwasanaethau i blant ac mae'n datblygu ei drefniadau perfformiad yn ystod cyfnod o newid sylweddol. Mae'r cyngor wedi gwella mewn sawl maes ond mae heriau yn parhau, gan gynnwys mynd i'r afael â'r pryderon difrifol a nodwyd yn y gwasanaethau i blant. Mae'r cyngor yn cymryd camau i wella ei ddull o reoli perfformiad ond, yn absenoldeb mesurau effaith da ar ddefnyddwyr gwasanaeth, mae'n anodd gweld a yw dyheadau yn cael eu bodloni.

Yn gyffredinol mae trefniadau'r cyngor i gefnogi gwelliant yn gadarn, ond mae'n wynebu rhai penderfyniadau ariannol anodd. Wrth ddatblygu cynlluniau ariannol tymor canolig, mae'n rhaid i'r cyngor ganolbwyntio ar sicrhau gwelliant hirdymor cynaliadwy.

Mae aelodau'n cymryd diddordeb gweithredol ac uniongyrchol wrth gyflenwi gwasanaethau. Mae'r arweinydd wedi sicrhau ei fod yn cadw golwg ar gyflenwi gwasanaeth a thimau rheng flaen, ac mae panel aelodau wedi'i sefydlu. Mae AGGCC wedi cyfarfod â'r cadeirydd craffu a ddywedodd ei fod yn bwriadu cymryd swyddogaeth weithredol wrth geisio sicrwydd a'i fod yn barod i dderbyn cyngor am yr hyn y dylai aelodau fod yn cadw golwg arno. Ymddeolodd y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai ar ddiwedd y flwyddyn. Penodwyd cyfarwyddwr profiadol o fis Ebrill 2013 ar sail cyfnod cyfyngedig.

Meysydd o gynnydd

- Y rhaglen gweddnawid gofal cymdeithasol i oedolion.
- Gwaith integredig gydag iechyd.

Meysydd i'w gwella

- Parhau i wneud cynnydd wrth weithredu'r cynllun gwella strategol.
- Cynllunio olyniaeth i sicrhau cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol parhaol.
- Datblygu cymhwysedd aelodau, a gallu prosesau craffu i ddeall cymhlethdodau gwasanaethau cymdeithasol a'r disgwyliadau statudol ohonynt a chynnig her briodol i swyddogion.